# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 5ed 2026 yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Rita Jones, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans, Dewi Pritchard ac Iolo Evans.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Yn dilyn eu cyfarfod a swyddogion Dŵr Cymru i drafod y pryderon_am orffeniad gwaith adeiladu gorlifan atodol newydd yn Llyn Celyn, cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones a'r clerc
ii) Roedd gweithlu Cyngor Gwynedd wedi bod allan i drwsio'r draen lle oedd y ddŵr yn hel ar yr A4212, ger cyffordd Rhyduchaf –
iii) Roedd gweithlu'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi llenwi rhai o'r tyllau ar yr A494 gyferbyn a phentref Sarnau ac roedd bwriad i wneud rhagor o waith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

b) Cronfa Cefnogi Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned 2026.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i geisio am arian i wella ffordd mynwent Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a chontractwyr lleol i gael prisiau erbyn cyfarfod mis Mehefin.

## v) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Cyfarfod Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn, Ebrill 29ain.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd mis Mai 2026.

b) Amrywiol.
i) Cwyn am y gwasanaeth ail gylchu yn Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerc anfon y sylwadau'n mlaen i Gyngor Gwynedd.
ii) Heddlu Gogledd Cymru – cyfarfod gyda chynghorau cymuned a thref, Ebrill 30ain. Cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones o'r hyn a drafodwyd.
iii) Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Adfer Natur newydd.
iv) Lloyds Coaches – gwasanaeth bws T3c a phroblem mynediad i bentref Llandderfel. Cytunwyd i ail gysylltu a pherchnogion y tai perthnasol ac ymghyngori a Chyngor Gwynedd ynglyn a chael llinellau melyn ar ran o'r ffordd. Roedd y clerc eisoes wedi gofyn i'r heddlu lleol gadw golwg ar y sefyllfa a chael gair gyda pherchnogion y ceir oedd yn creu'r trafferth.
v) Parc Cenedlaethol – Cronfeydd Cymunedol Eryri.

## v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-
i) PEDW - DNS/3276735 - Fferm Wynt Gaerwen - Hysbysiad o'r bwriad i atal penderfyniad er mwyn caniatau amser i gyflwyno rhagor o wybodaeth.
ii) C26/0154/04TC – Cais am Dystysgrif Cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethedig fel lleoliad priodas o dan Ddosbarth defnydd D2 presennol. Pen Isa'r Llan, Llanfor.
iii) C26/0153/04TC – Cais o dan Adran 191 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref am Dystysgrif Cyfreithlon am ddefnydd presennol C1 o'r prif dy ac adeiladau allanol fel llety gwyliau. Pen Isa'r Llan, Llanfor.



Arwyddwyd: ………………………………………….      Dyddiad: …………………………………..

Gan fod dyddiad cau i dderbyn sylwadau ar geisiadau Pen Isa'r Llan wedi bod cyn y cyfarfod roedd y clerc wedi ymgynghori a'r cynghorwyr dros ebost. Derbyniwyd sylwadau hefyd gan drigolion cyfagos am y problemau gyda'r ceir ychwanegol yn parcio o gwmpas y pentref a'r gerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae yn hwyr yn y nos pan fu digwyddiadau yn cael eu cynnal yno.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Derbyniadau.
Derbyniwyd rhandal cyntaf o'r Praesept.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu canlynol –
i) AJG Community Schemes (yswiriant).
ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd) a chymeradwywyd y taliad a gafodd ei dalu'n ôl ym mis Ebrill.
ii) Deiniol Davies (torri gwrych mynwent Llandderfel).

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Sbwriel ar hyd y ffordd ac yn y gilfan ger y goleuadau traffig dros dro ym Methel.
ii) Ceir yn cael difrod i'w olwynion oherwydd carreg sy'n agos iawn i'r ffordd ger Cynlas, Cefnddwysarn.
iii) Contractwyr Dŵr Cymru angen dod yn nôl i dacluso'r tir ym mhentref Sarnau ar ôl iddynt drwsio'r draen yno.
iv) Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu a pherchnogion Clwb Carafannau Cefnddwysarn ynglyn a'r coed ger y fynedfa gan nad oeddynt wedi gwneud ymdrech i'w torri.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 2il am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..